

# **GALWAD I WEDDI**



**GWAHODDIAD  
I YMUNO GYDA  
NI I WEDDIO AM  
WAITH DUW YNG  
NGHYMRU**



**MUDIAD  
EFENGYLAIDD  
CYMRU**

YN GWASANAETHU'R EGLWYS

# A OES DIM YN RHY ANODD I'R ARGLWYDD?

**Mae Galwad i Weddi MEC wedi ei roi i annog plant Duw i ymuno gyda'i gilydd i ofyn i Dduw weithio'n bwerus yn ein gwlad.**

Mae ein gwlad dan wasgedd: ansicrwydd economaidd a gwleidyddol, diffyg moesoldeb cywir, tensiynau ynghylch rhyddid barn a mynegiant, a'r lleihau mewn gwybodaeth am wirionedd Cristnogol. Mae pobl hefyd yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng hunaniaeth ac ansicrwydd ynghylch pwrpas bywyd.

Tra bod llawer o drafodaeth am y pethau hyn yn y cyfryngau a'r byd cyhoeddus, rydym ni'n gwybod mai'r gwir angen yw i Dduw weithio mewn ffordd bwerus. Drwy ei efengyl mae'n dod gan achub a newid pobl mewn ffordd real a fydd yn eu tro yn dod yn oleuni a halen i'r byd.

## **Rydym angen gweddi am dri pheth:**

**1** Y byddai'r Arglwydd yn dod ag argyhoeddiad o bechod, ac yn tynnu pobl at Grist mewn edifeirwch a ffydd;

**2** Y byddai'r Arglwydd yn tynnu pobl ato'i hun mewn gwyleidd-dra a sancteiddrwydd, rhoi cariad dyfnach tuag ato, a'u galluogi i'w wasanaethu'n ffyddlon;

**3** Y byddai'r Arglwydd yn derbyn y clod a'r gogoniant drwy'r cyfan.

Gadewch i ni fod yn siwr nad yw ein pechodau yn rhwystr i fendith Duw. Gadewch i ni gofio'r addewid wrth i ni weddio: *"Os cyffeswn ein pechodau, y mae ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn, ac felly fe faddeua inni ein pechodau, a'n glanhau o bob anghyfiawnder"* (1 Ioan 1:9). Y mae'r Arglwydd yn dweud wrthym mai'r *"glân ei ddwylo a'r pur o galon"* fydd yn derbyn y *"fendith gan yr ARGLWYDD a chyfiawnder gan Dduw ei iachawdwriaeth"* (Salm 24).

**Mae gymaint o resymau i ni fod yn ddiolchgar am y bendithion yr ydym wedi eu derbyn – mae gymaint, ac maent i gyd yn hollol anhaeddiannol, ac yn gorlifo tuag atom drwy lesu. Ond mae hefyd gymaint o resymau pam y dylem alw ar Dduw am fwy o fendith – mae'r angen yn fawr, ond 'A oes dim yn rhy anodd i'r Arglwydd'?**

## **Mae geiriau hynod o berthnasol i'n sefyllfa yn Eseia 59:**

*"Nid aeth llaw'r ARGLWYDD yn rhy fyr i achub"* - dyma ein **hyder**;

*"na'i glust yn rhy drwm i glywed"* - dyma ein **hanogaeth**.

Eto mae'r proffwyd yn mynd ymlaen i ddweud wrth bobl Dduw, *"ond eich camweddau chwi a ysgarodd rhyngoch a'ch Duw, a'ch pechodau chwi a barodd iddo guddio'i wyneb fel nad yw'n eich clywed"* - dyma ein **rhybudd**.

- Mark Thomas

(Ysgrifennydd Cyffredinol MEC)

# SUT I DDEFNYDDIO'R CANLLAW

Ein gobaith wrth gynhyrchu'r canllaw yma yw eich helpu i weddio dros Gymru. Nid ydym am hyrwyddo MEC - does gennym ddim diddordeb mewn gwneud hynny. Diolchwn fod gwaith yr efengyl yn mynd ymlaen yn ein gwlad drwy gymaint o Gristnogion, eglwysi a mudiadau gwahanol, a gobeithiwn y bydd y canllaw yn gymorth i chi weddio am ba bynnag waith sy'n digwydd. Nid yw'n bosib i ni gynnwys popeth sy'n digwydd yng Nghymru mewn llyfryn; rydym felly wedi ceisio cyflwyno thema sylfaenol ar gyfer pob dydd, gan roi ambell i enghraifft benodol. Defnyddiwch yr enghreifftiau yma, ond peidiwch â chyfyngu eich hunain iddynt. Mae'r angen yn fawr, ond diolch byth fod yr Arglwydd yn fwy!

## BETH SYDD WEDI EI GYNNWYS

### ADNOD DDYDDIOL

I selio ein gweddiau yn yr Ysgrhythur.

### CYFLWYNIAD BYR

Paragraff byr yn cyflwyno'r thema bob dydd.

### DYFYNIAD

Dyfyniad gan aelod o'r fwrdd rheoli MEC sy'n weinidog neu'n henuriad mewn eglwys.

## PWYNTIAU GWEDDI

Wedi ei rannu yn bedair rhan:

**Diolchgarwch a Mawl** – i ddiolch i Dduw am beth y mae'n ei wneud;

**Ymateb ac Ystyried** – cyfle i edrych ar ein calonnau a'n hymddygiad ein hunain;

**Gofyn** – i ofyn i Dduw weithio;

**Enghreifftiau** – nifer o enghreifftiau o Gymru o sefyllfaoedd arbennig y medrwnch weddio amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys gweinidogaethau MEC a rhai sydd heb eu trefnu gan MEC.

## CYSYLLTU Â NI

Os hoffech roi adborth, gofyn am weddi arbennig neu wybod mwy am waith MEC a'r hyn y medrwn ei gynnig yna cysylltwch gyda Steffan Job yn swyddfa'r Gogledd neu drwy'r wefan.

### SWYDDFA GOGLEDD MEC

Canolfan Gristnogol Manna, 31 Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EU | 01248 354653  
swyddfa@mudiad-efengylaidd.org | Rhif Elusen 222407 | www.mudiad-efengylaidd.org

# DIOLCHGARWCH A GWEDDI



Dydd Gwener  
- 1 Mawrth -

*Llawenhewch bob amser.  
Gweddiwch yn ddi-baid.  
Ym mhob dim rhowch  
ddiolch, oherwydd hyn  
yw ewyllys Duw yng  
Nghrist Iesu i chi.*

1 Thesalonïad 5:16-18

*"Y mae'r Arglwydd Iesu wedi ei  
ogoneddu ar ddeheulaw Duw ac yn  
teyrnasu dros bawb. Gan gredu a  
gweddio drwyddo medrwn weddio  
gweddïau mawr - gweddïau am  
dröedigaethau ac ar i'r Ysbryd Glân  
weithio yn ei bobl a gogoneddu'r  
Tad drwy'r Mab yng Nghymru  
(Ioan 14:12-13). Diolchwch iddo a  
cheiswch ei ogoneddu."*

Eryl Davies  
Heath Evangelical Church, Caerdydd



Rhaid i ni ddod at Dduw mewn diolchgarwch pan fyddwn yn gweddio. Byddem yn feirw yn ein camweddau a phechodau heb obaith yn y byd oni bai am ras a maddeuant Duw. Wrth i ni gychwyn yr wythnos o weddi rhaid i ni beidio ag anghofio hyn. Mae Duw wedi, ac yn gwneud gymaint ym mywydau Cristnogion ein gwlad. Mae canoedd o eglwysi'r efengyl a miloedd o Gristnogion yn byw yng Nghymru ac mae gras i'w weld ym mhob man. Gadewch i'r gwirioneddau hyn gynhesu ein calonnau a rhoi hyder i ni ofyn mewn ffydd ar i Dduw i barhau ein bendithio.

## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw am y gwaith mae'n ei wneud ym mywydau Cristnogion ac am y rhyddid i rannu a phregethu'r efengyl yng Nghymru. Diolchwch ein bod yn gweld Iesu yn cael ei ogoneddu gan Gristnogion yng Nghymru.

### YMATEB AC YSTYRIED

Ystyriwch yr holl weddïau y mae Duw wedi eu hateb dros y blynyddoedd diwethaf - ydym ni'n cymryd y pethau hyn yn ganiataol? Ydym ni'n dibynnu ddigon ar Dduw?

### GOFYN

Gofynnwch i Dduw fagu baich am weddi a dibynadwyaeth llwyr arno yng Nghristnogion ein gwlad. Gofynnwch iddo ein harwain yr wythnos hon wrth i ni weddio am ei arweiniad.

### ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Er bod y nifer sy'n mynychu llefydd o addoliad wedi lleihau yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ar y cyfan ni welir y patrwm yma mewn eglwysi sy'n pregethu'r efengyl, gyda nifer o eglwysi yn tyfu.

Gwnaeth nifer o blant broffes o ffydd ar wersylloedd MEC y flwyddyn ddiwethaf.

Mae eglwys Mount Elim Pontardawe yn y broses o adeiladu adeilad newydd - caiff y sefyllfa yma ei adlewyrchu mewn nifer o eglwysi eraill o gwmpas Cymru, gyda nifer o eglwysi eraill yn chwilio am adeiladau newydd gan fod eu niferoedd wedi cynyddu.

Mae Cymru'n parhau i yrru Cristnogion i'r maes cenhadol drwy'r byd. Mae nifer o genhadon UFM wedi eu gyrru o eglwysi Cymru yn ddiweddar.

# UNDOD DROS YR EFENGYL A CHYDWEITHREDU

Dydd Sadwrn  
- 2 Mawrth -

Mae yna bŵer goruwchnaturiol rhyfeddol yn yr efenfyl. Y mae Ysbyrd Duw yn dod â ni i berthynas gyda'r Tad drwy farwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist ar y groes - am wirionedd rhyfeddol! Rydym wedi'n huno mewn perthynas gyda'r Duw sy'n dri yn un ac mae'n amlwg fod Iesu am i ni ddangos hyn i'r byd di-gred. Yn anffodus, nid yw undod cryf wedi nodweddu Cristnogion Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae angen i ni weddio y bydd gwir undod yr efenfyl a chariad yn datblygu rhyngom. Mae Keith Getty yn mynegi hyn yn hyfryd yn un o'i ganeuon:

*Dan gysgod croes yr Iesu  
Rwy'n un â'i deulu Ef;  
Pob un fu'n ceisio'r hunan, nawr  
Sy'n un trwy ras y nef.  
Sut fedrwn waradwyddo'r  
Rhai garodd Iesu gwiw?  
Dan gysgod croes yr Iesu  
Gwel y plant a alwodd Duw.*

© 2005 Thankyou Music

*"Fel Cristnogion ac eglwysi mae mor hawdd i ni fynd yn fewnbylg ac i wahanu ein hunain oddi wrth eraill. Wrth i ni ofalu am ein 'patch' ein hunain mae'n hawdd anghofio fod gwaith Duw yn llawer mwy na ni. Mae gweddio dros ein gilydd yn ffordd hyfryd o ddangos ein hundod. Mae'n rhyfeddol sylweddoli ein bod, drwy weddi, yn cymryd rhan wirioneddol ym mywyd a lles eglwysi eraill."*

Emyr James

Eglwys Efenylaidd Gymraeg Caerdydd



*"Ond nid dros y rhain yn unig yr wyf yn gweddio, ond hefyd dros y rhai fydd yn credu ynof fi trwy eu gair hwy. Rwy'n gweddio ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd fod ynom ni, er mwyn i'r byd gredu mai tydi a'm hanfonodd i."*

Ioan 17:20-21

## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw am yr holl waith mae wedi ei wneud yn achub pobl ac am undod a welir rhwng Cristnogion Cymru heddiw.

### YMATEB AC YSTYRIED

Ydych chi'n dangos undod gyda Christnogion ac eglwysi'r efenfyl eraill sydd yn eich ardal?

### GOFYN

Gofynnwch i Dduw am ddoethineb ac eglurder ar faterion yr efenfyl ac am ras wrth i ni drafod ac anghytuno ar faterion eilradd. Gofynnwch i Dduw uno Cristnogion Cymru fel y gall y rhai di-gred weld pŵer yr efenfyl ar waith.

### ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae MEC wedi gweld mwy o gydweithredu ac undod rhwng Cristnogion yn y blynyddoedd diwethaf. Gall hyn gael ei weld wrth i dros 70 eglwys o wahanol gefndiroedd ac enwadau fynychu ein dyddiau hyfforddi ym mis Ionawr.

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol gan anffyddiwr yn yr ymgyrch ddiweddar ym Mhrifysgol Bangor: 'Pam fod gymaint o fathau o Gristnogaeth a pam nad ydych yn medru cytuno?'



# Day of Prayer for Wales

# Diwrnod Gweddi dros Gymru



An opportunity to join others  
to pray for our nation

Cyfle i ymuno gydag eraill i  
weddïo dros ein gwlad

**Saturday, 2 March**

**Dydd Sadwrn, 2 Mawrth**

**Drop in Central Venues - Lleoliadau Canolog (drop in from 9.30 – 17.00)**

North – *Bryn y Groes Conference Centre, Bala* – Gogledd

Mid – *Alfred Place Baptist Church, Aberystwyth* – Canolbarth

South East – *Welsh Evangelical Church, Cardiff* – De Ddwyrain

South West – *Peniel Baptist Church, Carmarthen* – De Orllewin

Visit [www.emw.org.uk/prayforWales](http://www.emw.org.uk/prayforWales)  
for more information and to receive the  
prayer guide.

Am fwy o wybodaeth ac am dderbyn  
copi o'r canllaw gweddi ewch i  
[www.mudiad-efengylaidd.org/gweddiCymru](http://www.mudiad-efengylaidd.org/gweddiCymru)

# SANCTEIDDRWYDD A DIBYNTIAETH AR DDUW



Dydd Sul  
- 3 Mawrth -

Mae mor hawdd i droi Cristnogaeth yn rhywbeth sy'n ateb ein hanghenion ni. Mae'r galon yn dwyllodrus uwchlaw pob dim, ac hyd yn oed mewn cylchoedd efengylaidd mae modd i ni wneud gras yn rhywbeth rhad a gwthio Duw i'r ochr fel bod ein Cristnogaeth yn ddim ond blanced gynnes i'n cysuro i fyw fel y mynnwn. Ond fel y dywedodd Oswald Chambers '*Holiness, not happiness, is the chief end of man*' ac mae angen gras a phŵer Duw yn ein bywyd i wireddu hyn. Mae'r Beibl yn glir bod yn rhaid i ni wneud lle i Dduw yn ein calonnau a'n meddyliau os ydym am i Dduw symud. Wrth i ni ymladd â phechod a dibynnu mwy ar Dduw, byddwn yn ei ogoneddu.

*Felly, gan fod gennym yr addewidion hyn, gyfeillion annwyl, ymlanhawn oddi wrth bob peth sy'n halogi cnawd ac ysbryd, gan berffeithio ein sancteiddrwydd yn ofn Duw.*

2 Corinthiaid 7:1

## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

Molwch Dduw am pwy yw e yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân a diolchwch iddo am ei holl addewidion rhyfeddol i'r rhai sy'n troi ato.

### YMATEB AC YSTYRIED

Ydym ni'n meddwl ddigon am sancteiddrwydd Duw? Sut ydym ni wedi wynebu'r flwyddyn ddiwethaf fel unigolion ac eglwysi - ydym ni'n dibynu ar Dduw a troi ato cyn ceisio chwilio am atebion ein hunain i'r sefyllfaoedd a wynebwn?

### GOFYN

Gofynnwch i Dduw ddangos ei hun i Gymru. Gweddïwch y bydd yr eglwys a Christnogion yn ceisio'r Arglwydd yn fwy ac y bydd y rhai di-gred yn cael ei dwysbigo wrth weld realiti'r bywyd ysbrydol a sancteiddrwydd Duw. Gweddïwch y bydd Duw yn delio gyda Chymru yn ei ras a'i gariad.

### ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae nifer o eglwysi efengylaidd yn dweud eu bod yn gweld llai o aelodau yn dod i fwy nag un cyfarfod yn ystod yr wythnos (bore a nos Sul a'r cwrdd gweddi wythnosol).

Trefnwyd dydd gweddi MEC gan fod nifer o bobl wedi cysylltu gyda ni i ofyn am gyfle i weddio gydag eraill. Gwelir y dyhead hwn mewn nifer o fudiadau eraill sy'n rhedeg dyddiau/wythnosau o weddi ym mis Mawrth.

*"Mae bron i ganrif wedi pasio ers i E.M.Bounds ysgrifennu, "The Church is looking for better methods; God is looking for better men." Rydym wedi ceisio nifer o ffyrdd gwahanol i gyrraedd pobl Cymru, ond os yw ein geiriau yn cael eu dileu gan ein bywydau, neu os ydym yn pwysu ar dechnegau yn hytrach nag ar Dduw, bydd y cyfan yn ofer. Mae efengylu yn cychwyn ar ein gliniau wrth i ni gyffesu a byw bywydau sanctaidd."*

Jeremy Bailey  
Bethlehem Evangelical Church  
Sandfields, Port Talbot



# ARWEINWYR YR EGLWYSI



Dydd Llun  
- 4 Mawrth -

*Cadwch mewn cof  
eich arweinwyr, y rhai  
a lefarodd air Duw  
wrthyich; myfyriwch ar  
ganlyniad eu buchedd,  
ac efelychwch eu ffydd.*

Hebreaid 13:7

*"Un o'r camgymeriadau mwyaf a  
wnawn yw meddwl fod arweinwyr ein  
heglwysi yn 'Gristnogion arbennig'.  
Y gwir yw bod ein harweinwyr yn  
'Gristnogion arferol' ond sydd a  
'gweinidogaeth arbennig', ac fel pob  
Cristion arall mae angen gweddio  
y byddant yn derbyn gras Duw  
yn ddyddiol. Gweddiwch am eich  
arweinwyr."*

Phil Swann  
Llanelli Free Evangelical Church



Un o anghenion mwyaf yr Eglwys yw arweiniad cryf, ysbrydol llawn cariad; mae'n egwyddor Feiblaidd ac yn rhywbeth y gwnaeth Iesu ei ddatblygu yn ei ddisgyblion. Mae bod yn arweinydd yn gyfrifoldeb mawr ac yn waith anodd, yn arbennig yng Nghymru heddiw. Mae dealltwriaeth o beth yw arweinydd yn ein cymdeithas ni yn wahanol iawn i'r patrwm Beiblaidd a bydd y diafol yn ymosod ar y rhai sy'n gofalu am braidd Duw. Gweddiwch y bydd ein harweinwyr yn magu cymeriad duwiol.



## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw am y Beibl a'r cyfan mae wedi ei roi i'n harwain fel Cristnogion. Diolchwch i Dduw am eich arweinwyr.

### YMATEB AC YSTYRIED

Pa mor aml ydych chi'n gweddio am eich arweinwyr – ydan ni'n eu parchu fel y mae'r Beibl yn gorchymyn?

### GOFYN

Gweddiwch ar i Dduw roi gwyleidd-dra, cryfder a doethineb i arweinwyr wrth iddynt ofalu am yr eglwys a gweddiwch y byddant yn dilyn patrwm yr Arglwydd, nid y byd. Gweddiwch y bydd Duw yn amddiffyn ein harweinwyr rhag ymosodiadau ac y bydd hefyd yn rhoi i ni arweinwyr ifanc newydd.

### ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae nifer o weinidogion wedi gadael eu heglwysi neu wedi gorfod cymryd amser i ffwrdd oherwydd salwch yng Nghymru yn y 24 mis diwethaf.

Fel rhan o'u gofal dros Gymru mae Union (Coleg Diwinyddol Pen-y-bont ar Ogwr) wedi penodi Jonathan Thomas (sydd hefyd yn aelod o'r bwrdd rheoli MEC) yn ddeon bugeiliol. Mae'n nodi isod:

*"Angen mawr Cymru yw arweinwyr sy'n datgan Gair Duw yn glir a chydag pŵer yr Ysbryd. Gweddiwch y bydd arweinwyr newydd yn datblygu ac y bydd y rhai hynach yn cael eu hadnewyddu a'u hadfywio i barhau i ddatgan Gair Duw ym mhob sefyllfa."*



# YMGYRCH AC EFENGYLU

Dydd Mawrth  
- 5 Mawrth -

*"Ewch a gwnewch ddisgyblion ...!  
tasg digon anodd... ond i'r holl  
genhedloedd! Drwy ras Duw fe aethant  
a gwneud disgyblion drwy'r byd. Mae  
cenedlaethau wedi hynny wedi gwneud  
yr un peth a dyma heddiw ein cyfle ni!  
Mae'r adnodau mor gyfarwydd. Medrwn  
gollu gogoniant a rhyfeddod gorchymyn  
lesu i ni. Efallai y bydd yn gymorth i  
chi eu darllen dro ar ôl tro. Gweddiwch  
nhw i mewn i'ch calon a chwiliwch  
am gyfleodd i siarad dros Iesu. Mae'n  
gaddo bod gyda chi... hyd ddiwedd  
amser!"*

David Norbury  
Cadeirydd ymddiriedolwr MEC



Yn Llangeitho ar gofgolofn Daniel Rowlands (y pregethwr mawr Cymraeg) mae'r geiriau yma wedi eu cerfio:

*'O Nefoedd! Nefoedd! Nefoedd! Buasai dy  
gonglau yn ddigon gwag oni buasai fod  
Seion yn magu plant i ti ar y ddaear'.*

Gwelodd Daniel Rowlands filoedd yn cael tröedigaeth - am gyfnod oedd hynny wrth weld yr efengyl yn cael ei phregethu a'i derbyn o gwmpas y wlad - ond dyma hefyd ein gwaith a'n baint ninnau heddiw. Mae gennym gyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod yr efengyl yn cael ei chlywed a'i deall gan bobl ein gwlad, ac mae angen nerth a doethineb Duw arnom i wneud hyn. Rydym hefyd angen yr Ysbryd i roi'r nerth a chyfrif y gost i fynd a gwneud disgyblion, nid yn unig yn niogelwch ein hadeiladau eglwysig ond y tu allan hefyd.

*"Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion  
o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio  
hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,  
a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a  
roddais i chi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda  
chi bob amser hyd ddiwedd amser."*

Mathew 28:19-20

## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw am efengyl i rannu ac am y rhyddid a'r cyfle i rannu'r efengyl honno drwy ein gwlad a'n cymunedau.

### YMATEB AC YSTYRIED

Ydym ni'n credu fod yr efengyl yn bwerus ac y gall Duw weithio - hyd yn oed yng Nghymru heddiw?

### GOFYN

Gweddiwch y bydd gan Gristnogion hyder yn yr efengyl a baich i rannu'r newyddion da am Iesu yn agored. Gweddiwch y bydd Duw yn agor calonnau'r di-gred a gweddiwch yn arbennig dros rannau o Gymru sydd heb dystiolaeth Gristnogol.

### ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae Cymrugyfan wedi adnabod nifer o ardaloedd sydd heb dystiolaeth yr efengyl. Medrwn weld map drwy fynd i'r wefan ([www.cymrugyfan.org/gweddiwch](http://www.cymrugyfan.org/gweddiwch)).

Trefnwyd nifer o ymgyrchoedd diweddar gan UCCF ym Mhrifysgolion Cymru.

Bydd dau rifyn o'r cylchgrawn efengyl Holi yn cael ei gyhoeddi gan MEC eleni. Cafodd rhifyn y flwyddyn ddiwethaf ei ddarllen gan filoedd o bobl.

# PLANT A PHOBL IFANC



Dydd Mercher  
- 6 Mawrth -

Rydym yn byw mewn amser na fu ei fath o'r blaen lle mae'r pwysau ar bobl ifanc yn real ac yn cynyddu. Gall bywyd fod yn gymhleth wrth i'n pobl ifanc weld gymaint drwy gyfryngau cymdeithasol, cymdeithas sy'n mynd yn fwy seciwlar a system addysgu sy'n rhoi pwysau arnynt. Dylem weddio yn arbennig dros ein pobl ifanc a'u rhieni, athrawon a gofalwyr sy'n gofalu amdanynt.

Mae'n dda cofio nad yw'r trafferthion a welwn yn mynd i atal gwaith Duw, yn wir gallant ddod a phobl yn agosach ato. Pan fyddwn ar ein mwyaf isel y mae Duw yn aml yn torri i mewn.

*"Mae'n destun diolchgarwch mawr ein bod yn gweld gymaint o'n plant a'n pobl ifanc yn cael clywed yr efengyl. Mae rhieni a theuluoedd yn profi gwasgedd cynyddol, ac felly mae angen gweddio am ddoethineb wrth iddynt geisio dysgu eu plant am bethau Duw. Gweddïwch os gwelwch yn dda am ein plant a'n gweithwyr ieuentid, gan ddiolch i Dduw fod gymaint wedi archebu lle ar wersylloedd yr haf yn barod."*

Andy Pitt  
Park Baptist Church, Merthyr



*Hyffordda blentyn ar ddechrau ei daith, ac ni thry oddi wrthi pan heneiddia.*

Diarhebion 22:6

## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

Molwch Dduw gan ei fod yn medru achub unrhywun – dim ots am eu hoed, cefndir na'u gallu. Diolchwch i Dduw am yr holl waith a gaiff ei wneud yn yr ysgolion a thrwy waith ieuentid eglwysi yng Nghymru.

### YMATEB AC YSTYRIED

Ydym ni yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar ein plant a phobl ifanc? Ydym ni yn gweddio ac yn rhoi cymorth iddynt yn ein heglwysi?

### GOFYN

Gofynnwch i Dduw fendithio ei waith ymhlith plant a phobl ifanc gan ddangos ei gariad iddynt a rhoi gobaith a'r gallu iddynt i weld heibio'r pwysau mawr. Gweddïwch am athrawon sy'n Gristnogion ac am rieni a gweithwyr ieuentid – gweddïwch y byddant yn ddoeth a sensitif ond yn gryf i ddatgan y rhyddid a geir yn Iesu.

### ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Nghymru (CAMHS) o dan bwysau cynyddol. Rhwng 2010 a 2014 gwelwyd cynnydd o 100% yn y defnydd o'r gwasanaeth. Mae adroddiadau yn awgrymu fod y patrwm hwn yn parhau.

Mae Eleri Trythall yn weithiwr ieuentid Cristnogol yn ardal Penllŷn. Caiff ei chyflogi gan Trobwynt sy'n elusen a lanswyd gan nifer o Gristnogion lleol. Mae nifer o weithwyr tebyg o gwmpas Cymru.



*Nid yw'r Arglwydd yn oedi cyflawni ei addewid, fel y bydd rhai pobl yn deall oedi; bod yn amyneddgar wrthy ch y mae, am nad yw'n ewyllysio i neb gael ei ddinistrio, ond i bawb ddod i edifeirwch.*

2 Pedr 3:9

*"Rydym yn ddiolchgar am yr ymgyrchoedd a chyfleoedd i efengylu a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gweddiwch y bydd Duw yn rhoi bywyd i'r had a blannwyd. Gweddiwch y bydd gan Gristnogion fwy o gonsyrn ac angerdd dros y colledig; mai ei prif ddeisyfiad fyddai gweld Cymry eraill yn dod i ffydd (Rhuf. 10:1)."*

Rhun Murphy  
Pen y Bryn, Wrecsam



Dim ond Duw all achub. Medrwn drefnu'r digwyddiadau gorau, ceisio perswadio gyda'r dadleuon cryfaf, dangos y mwyaf o gariad a chreu yr adnoddau mwyaf slic, ond os nad yw Duw yn adeiladu ei dŷ, byddwn yn llafurio'n ofer. Yn ystod yr wythnos rydym wedi canolbwyntio ar agweddau gwahanol o waith Duw yng Nghymru, ond mae'n rhaid i ni orffen gyda'n diolchgarwch a'n dibyniaeth lwyr arno. Os ydym am weld Cymru yn cael ei thrawsnewid, ei chymunedau'n gwella a phobl yn cael eu hachub, yna mae'n rhaid i ni bwysu yn llwyr ar yr Arglwydd. Does dim ffordd arall. Gadewch i ni barhau i weddio a phwysu arno.

## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw ei fod wedi ein hachub – er mor annheilwng yr ydym. Diolchwch am sylmlrwydd yr efengyl ac am y fraint ryfeddol o fod yn briodferch i Iesu yng Nghymru.

### YMATEB AC YSTYRIED

Ydym ni'n sylweddoli pa mor golledig yw pobl heb Grist a pha mor ddiymadferth yr ydym ni i newid y sefyllfa yn ein nerth ein hunain?

### GOFYN

Gofynnwch i Dduw weithio ym mywydau pobl yng Nghymru. Gofynnwch iddo ogoneddu Crist ym mywyd cyhoeddus ac ym mywyd personol ein gwlad - mae haeddu'r gogoniant!

### ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Yn y cyfrifiad diwethaf yng Nghymru roedd cynnydd o 13.6% rhwng 2001 a 2011 yn y rhai a ddywedodd nad oedd ganddynt grefydd.

Mae Cymry Cymraeg yn parhau i fod yn gaeedig iawn i'r efengyl. Dywed Steffan Job (cydlynnydd rhai o ymgyrchoedd MEC): *'Mae gymaint o resymau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol pam fod llawer o'r Cymry Cymraeg yn methu clywed yr efengyl. Diolch byth fod y rhesymau yma yn dechrau dadrithio. Rydym yn parhau i ymdrechu'n galed i estyn allan, ond yn y diwedd, dim ond Duw all agor calon - i Dduw y dylem edrych.'*

Un o'r breintiau a chyfleoedd gwy ch yng Nghymru yw medru estyn allan i bobl o wledydd eraill sy'n byw yn ein plith. Mae rhai eglwysi yn y dinasoedd yn rhedeg gwasanaethu gyda chyfieithu i Ffarsi, Pwyleg a Tsieinëeg.

# GWEDDIWCH DROSOM OS GWELWCH YN DDA

Rydym yn ddibynol ar Dduw ym mhob ffordd. Hebddo, ni allwn wneud dim, ond medrwn wneud pob dim drwy'r Un sy'n ein nerthu. Mae gweddi yn rhan holl bwysig o waith MEC.

Fydddech chi'n ystyried derbyn un o'n bwletinau gweddi? Bron yn wythnosol rydym yn gyrru gwybodaeth allan am weinidogaeth

arbennig – e.e. ymgyrch neu adnoddau. Medrwn ychwanegu eich enw i fynd ar un o'r rhestrau hyn trwy'r wefan:

[www.mudiad-efengylaidd.org/gweddi](http://www.mudiad-efengylaidd.org/gweddi)

## MAE'N RHESTRAU GWEDDI YN CYNNWYS:

LLYTHR GWEDDI CYFFREDINOL

YMGYRCHOEDD


DIGWYDDIADAU

GWERSYLLOEDD

GWEINIDOGION

ADNODDAU'R WASG

BRYN Y GROES



**MUDIAD  
EFENGYLAIDD CYMRU**

YN GWASANAETHU'R EGLWYS



**EVANGELICAL  
MOVEMENT OF WALES**

SERVING THE CHURCH

### SWYDDFA'R GOGLEDD

Canolfan Manna, 31 Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EU

01248 354653

[swyddfa@mudiad-efengylaidd.org](mailto:swyddfa@mudiad-efengylaidd.org)

Elusen 222407

[www.mudiad-efengylaidd.org](http://www.mudiad-efengylaidd.org)